
Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan

Adroddiad Ymgysylltu

Profiadau Cleifion yn ystod y Gaeaf yn yr
Adran Achosion Brys a'r Unedau Mân
Anafiadau

Mawrth 2023



Cynnwys

Tudalen

Cyflwyniad a chefnidir	3
Yr hyn a wnaethom	4
Adborth a gafwyd	6
Cyrraedd yr ysbyty	6
Teithio ac amser yn yr adran	8
Cyfforddusrwydd	12
Cyfathrebu	13
Bodddhad cyffredinol	16
Sylwadau	17
Arsylwadau	21
Casgliad	23
Argymhellion	24
Diolchiadau	25
Ynglŷn â Chynghorau Iechyd Cymuned (CICau)	26
Manylion cyswllt	27
Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	28
Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	31

Cyflwyniad a chefnidir

Mae Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan (CICAB) yn sefydliad statudol annibynnol sy'n cynrychioli buddiannau pobl yng Ngwent. Ein nod yw annog pobl i gymryd rhan weithredol yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar y ffordd y caiff gofal iechyd ei ddarparu.

Rydym yn clywed gan bobl mewn sawl ffordd, gan gynnwys arolygon ar-lein, digwyddiadau ymgysylltu lleol, cyswllt uniongyrchol â'n swyddfeydd, ein gwasanaeth eiriolaeth ar gyfer cwynion ac ymholiadau a thrwy ymweliadau wyneb yn wyneb â safleoedd y GIG yn ardal Gwent.

Fel rhan o'n cynllun blynyddol, roeddem am ddeall profiadau pobl wrth fynd i'r Adran Achosion Brys (AAB) yn Ysbyty Athrofaol y Faenor neu un o'r Unedau Mân Anafiadau (UMAau) sydd wedi'u lleoli yn Ysbyty Nevill Hall, Ysbyty Brenhinol Gwent, Ysbyty Aneurin Bevan ac Ysbyty Ystrad Fawr. Y rheswm am hyn yw bod Adran Achosion Brys ac Unedau Mân Anafiadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn wynebu pwysau sylweddol yn ystod cyfnod y gaeaf, a all ddylanwadu ar brofiadau pobl.

Cynhaliwyd y prosiect hwn gennym ddiwethaf rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2022. Gellir gweld yr adroddiad ar gyfer y prosiect hwn ar ein gwefan ¹

Roedd prosiect eleni yn weithredol am gyfnod o 6 wythnos a rhoesom drosolwg wythnosol i'r Bwrdd Iechyd o'r adborth a gawsom gan bobl, gan roi cyfle i'r Bwrdd Iechyd edrych dros yr adborth a gwneud y gwelliannau angenrheidiol.

Adeg cwblhau'r prosiect hwn y llynedd, oherwydd cyfyngiadau'r Coronafeirws, nid oedd modd i aelodau gwirfoddol y CIC ymweld â'r adrannau. Fodd bynnag, eleni, cawsant gyfle i fynd i'r UMAau a'r AAB er mwyn cael adborth wyneb yn wyneb, sy'n hynod werthfawr i ni.

Rydym yn defnyddio'r talfyriadau neu'r ffurfiau byr canlynol yn yr adroddiad hwn, felly dyma restr ohonynt i chi gyfeirio ati:

UMAau = Unedau Mân Anafiadau

AAB = Yr Adran Achosion Brys

¹ <https://aneurinbevancic.gig.cymru/>

YAF	=	Ysbyty Athrofaol y Faenor
YYF	=	Ysbyty Ystrad Fawr
YNH	=	Ysbyty Nevill Hall
YBG	=	Ysbyty Brenhinol Gwent
YAB	=	Ysbyty Aneurin Bevan

Roedd yr

arolwg yn weithredol o fis Ionawr i fis Chwefror 2023.

Yr hyn a wnaethom

Er mwyn ymgymryd â'r prosiect hwn, gwnaethom lunio arolwg ar-lein er mwyn i bobl ddweud wrthym am eu profiad o fynd i UMA neu'r AAB. Lluniwyd yr eitemau canlynol ac fe'u hanfonwyd i bob UMA a'r AAB i'w harddangos:

- Lluniwyd pecynnau arolygu a oedd yn cynnwys arolwg, taflen am y CIC, pen gwrthfacterol ac amlen radbost er mwyn ei gwneud hi'n hawdd i bobl ddychwelyd arolwg wedi'i gwblhau i'n swyddfeydd.
- Posterï a oedd yn cynnwys gwybodaeth am ein harolwg a phryd y byddai ein haelodau gwirfoddol o'r CIC yn bresennol yn yr UMAau a'r AAB i gasglu adborth wyneb yn wyneb. Roedd y poster yn cynnwys cod QR i bobl ei sganio i agor yr arolwg ar-lein.
- Lluniwyd cardiau busnes a oedd yn cynnwys y cod QR. Roedd y cerdyn busnes yn golygu y gallai pobl fynd â cherdyn gyda nhw a sganio'r cod QR gan ddefnyddio eu ffôn, a fyddai yn eu tywys i'n harolwg ar-lein, i'w gwblhau ar adeg gyfleus.

Hoffem ddiolch i'r Bwrdd Iechyd am barhau i gefnogi'r prosiect hwn ac am gytuno i dderbyn pecynnau arolygu, posterï a chardiau busnes i'w harddangos yn ei adrannau.

Ymwelodd ein haelodau gwirfoddol o'r CIC â'r Adran Achosion Brys a phob Uned Mân Anafiadau yn ystod y cyfnod chwe wythnos hwn. Roedd y

gwaith hwn yn rhan hanfodol o'r prosiect gan ein bod am gael adborth wyneb yn wyneb gan ei fod mor werthfawr i ni.

Aeth yr aelodau i'r AAB a'r UMAau bob bore dydd Llun a bob nos Iau am 6 wythnos:

Lleoliad	Nifer yr ymweliadau gan y CIC
YAF (AAB)	10
YNH (UMA)	10
YBG (UMA)	12
YYF (UMA)	10
YAB (UMA)	10

Yn ystod pob ymweliad, cwblhaodd yr aelodau ein harolwg gyda phobl yn yr adrannau a oedd yn barod i roi adborth.

Roedd yn bwysig i'n haelodau gwirfoddol o'r CIC ymweld â'r AAB a'r UMAau fel rhan o'r prosiect hwn. Pan oedd yr aelodau yn yr adrannau, gwnaethant arsylwi ar bethau na fyddai'r ymatebion i'r arolygon o reidrwydd wedi tynnu sylw atynt. Cyfeiriwyd unrhyw arsylwadau at y Bwrdd Iechyd er mwyn iddo gael gwybod am y materion a gododd ac mewn rhai achosion, er mwyn iddo allu ymateb i bryderon.



Adborth a gafwyd

Cawsom gyfanswm o 399 o ymatebion gan gleifion, aelodau o deuluoedd, a gofalwyr neu ffrindiau pobl a aeth i ysbyty. Mae'r lefel ymateb hon yn uchel.

Ymatebion a gafwyd:

Lleoliad	Nifer yr Ymatebion
YAF (AAB)	105
YNH (UMA)	31
YBG (UMA)	62
YYF (UMA)	124
YAB (UMA)	77

Cyrraedd yr ysbyty

Ysbyty Athrofaol y Faenor (AAB)

O'r 105 o bobl a aeth i Adran Achosion Brys Ysbyty Athrofaol y Faenor yn ystod y cyfnod hwn, roedd 17 ohonynt eisoes wedi bod i ysbyty arall cyn cael eu hailgyfeirio i YAF i gael sylw meddygol:

Ysbyty Nevill Hall: 5

Ysbyty Brenhinol Gwent: 6

Ysbyty Ystrad Fawr: 5

Ysbyty Aneurin Bevan: 1

Dywedodd 26 o bobl eu bod wedi cysylltu â'u meddyg teulu cyn mynd i'r AAB, roedd 22 o bobl wedi cysylltu â gwasanaeth 111/Y Tu Allan i Oriau y GIG a dywedodd 21 o bobl wrthym eu bod wedi cysylltu â gweithiwr iechyd proffesiynol arall cyn mynd i'r AAB, er enghraifft drwy ddeialu 999 neu fynd i'r optegydd.

Dywedodd 26 o bobl wrthym na wnaethant gysylltu â gweithiwr iechyd proffesiynol cyn mynd i'r AAB.

Ysbyty Nevill Hall (UMA)

Dyweddodd pedwar person a aeth i UMA Ysbyty Nevill Hall wrthym eu bod eisoes wedi ymweld ag ysbyty arall cyn cael eu hanfon i YNH i gael sylw meddygol. Roedd tri pherson wedi mynd i'r AAB i ddechrau ac roedd un person wedi mynd i Ysbyty Aneurin Bevan (YAB).

Dyweddodd wyth person wrthym eu bod wedi cysylltu â'u meddyg teulu i gael cyngor cyn mynd i'r uned a dywedodd pedwar person wrthym eu bod wedi cysylltu â gwasanaeth 111/Y Tu Allan i Oriau y GIG.

Dyweddodd y rhan fwyaf o bobl wrthym na wnaethant gysylltu â gweithiwr iechyd proffesiynol cyn mynd i'r uned hon.

Ysbyty Brenhinol Gwent (UMA)

Dyweddodd pum person wrthym eu bod wedi mynd i ysbyty arall cyn cael eu hailgyfeirio i'r uned hon i gael triniaeth feddygol. Roedd tri pherson wedi mynd i'r Adran Achosion Brys yn YAF i ddechrau. Ni roddodd dau berson unrhyw wybodaeth bellach.

Nid oedd y rhan fwyaf o bobl wedi cysylltu â gweithiwr iechyd proffesiynol i gael cyngor cyn mynd i'r uned hon. O'r rhai a wnaeth, gwnaethant gysylltu â'u meddyg teulu, gwasanaeth 111/Y Tu Allan i Oriau y GIG, Deintydd neu Ffisiotherapydd.

Ysbyty Ystrad Fawr (UMA)

Aeth dau berson i Ysbyty Athrofaol y Faenor ac Ysbyty Brenhinol Gwent cyn cael eu hailgyfeirio i'r uned hon i gael triniaeth feddygol.

Dyweddodd 21 o bobl wrthym eu bod wedi cysylltu â'u meddyg teulu i gael cyngor cyn dod i'r uned hon ac roedd saith person wedi cysylltu â gwasanaeth 111/Y Tu Allan i Oriau y GIG. Roedd eraill wedi cysylltu â'u fferylllydd neu ffisiotherapydd. Fodd bynnag, nid oedd y rhan fwyaf o bobl wedi cysylltu â gweithiwr iechyd proffesiynol cyn dod.

Ysbyty Aneurin Bevan (UMA)

Dim ond 22 o'r bobl a ddaeth i'r uned hon a oedd wedi cysylltu â'u meddyg teulu cyn dod. Dywedodd dau berson wrthym eu bod wedi cysylltu â'u hoptegydd neu eu deintydd cyn dod. Nid oedd y lleill wedi gofyn am gyngor gan weithiwr iechyd proffesiynol.

Yn ôl pob tebyg, mae'r ffaith na wnaeth y rhan fwyaf o bobl a aeth i UMA yn ystod y cyfnod hwn gysylltu â gweithiwr iechyd proffesiynol i gael cyngor cyn mynd yn thema gyffredin.

Teithio ac amser yn yr adran

Gwnaethom ofyn i bobl sut yr oeddent wedi teithio i'r ysbyty:

Math o drafnidiaeth	Nifer o bobl
Car	297
Ambiwlans	32
Tacsi	7
Tacsi wedi'i ddarparu gan y GIG	6
Perthynas/Ffrind/Cymydog	50
Arall (bws, cerdded)	11
Heb ateb	7

Nodwch fod rhai o'r ymatebwyr wedi dewis mwy nag un opsiwn

Ysbyty Athrofaol y Faenor (AAB)

Roedd y bobl a ddywedodd wrthym eu bod wedi teithio i'r ysbyty mewn ambiwlans wedi mynd i Adran Achosion Brys Ysbyty Athrofaol y Faenor.

Dyweddodd 44% o'r 32 o bobl a deithiodd i'r ysbyty mewn ambiwlans eu bod wedi gorfod aros yn y cerbyd am gyfnod hir. Ar gyfartaledd, roedd y bobl hyn wedi aros 8 awr. Fodd bynnag, dywedodd un person wrthym na fu'n rhaid iddo aros yng nghefn yr ambiwlans. Cafodd ei gludo i mewn i'r ysbyty "*ar unwaith*". Dywedodd wrthym hefyd fod y broses "*yn gyflym iawn – ardderchog*".

Sylwadau gan bobl a deithiodd mewn ambiwlans:

"Fe ges i fy nghludo i mewn yn syth o'r ambiwlans – roedd hynny 3 diwrnod yn ôl"

"Taith frys â'r goleuadau glas – roedden nhw'n ardderchog"

"Roedd yr ambiwlans yn fochaid ac roedd y llawr yn fwdlyd"

"Ar ôl ffonio am ambiwlans, bu'n rhaid aros 6 awr"

"Yn ystod y cyfnod aros, cefais fy nghludo nôl ac ymlaen gan ddynion yr ambiwlans i gael triniaeth"

"Dim bai'r ambiwlans oedd y ffaith bod yn rhaid i mi aros. Roedd y gwasanaeth ambiwlans yn dda iawn."

"Roedden nhw'n garedig iawn i fi."

Dywedodd y rhan fwyaf o bobl a gyrhaeddodd yr AAB gan ddefnyddio math arall o drafnidiaeth fel car, tacsï, tacsï wedi'i ddarparu gan y GIG neu ffrind/perthynas/cymydog wrthym eu bod wedi aros rhwng dwy funud a hyd at ddwy awr ar gyfer eu hasesiad cychwynnol. Ond dywedodd un person wrthym ei fod wedi aros 9.5 awr.

Yn dilyn asesiad cychwynnol, bu'n rhaid i 25 o bobl aros hyd at 3 awr am ymgynghoriad (triniaeth feddygol). Cafodd pedwar person eu hymgyngoriad *"yn syth"* ar ôl eu hasesiad cychwynnol. Fodd bynnag, bu'n rhaid i 15 o bobl aros cyfnod hir, gyda rhai ohonynt yn aros dros 12 awr. Dywedodd un person wrthym ei fod wedi bod yn aros am 19 awr i gael ei ymgynghoriad.

Cafodd y rhan fwyaf o bobl a aeth i'r Adran Achosion Brys yn ystod y cyfnod 6 wythnos eu rhyddhau o'r ysbyty neu eu derbyn i ward arall o fewn cyfnod o rhwng awr a chwe awr. Dywedodd saith person wrthym eu bod wedi aros rhwng 8 a 12 awr.

Sylwadau:

"Fe ddes i yma yn y car gan fod y cyfnod aros am ambiwlans yn hir"

"Roeddwn yn yr ystafell aros o fewn 5 munud o gyrraedd mewn tacsï. Fe ddes i mewn yma'n gyflym."

Ysbyty Nevill Hall (UMA)

Roedd yn galonogol darllen bod y rhan fwyaf o bobl a aeth i'r UMA yn yr ysbyty hwn wedi aros llai nag awr i gael asesiad cychwynnol. Dywedodd un person wrthym ei fod wedi gorfod aros 2 awr.

Gwelwyd ffigurau tebyg gyda'r rhan fwyaf o bobl yn dweud wrthym eu bod wedi aros llai nag awr am eu hymgyngoriad (triniaeth feddygol).

Dywedodd 16 o bobl wrthym eu bod wedi gorfod aros rhwng awr a hyd at 2 awr i gael eu rhyddhau o'r ysbyty neu eu derbyn i ward arall. Roedd tri pherson wedi aros rhwng 2 awr a 4 awr.

Sylwadau:

"Dim problemau"

"Roedd y cyfleusterau parcio yn iawn – bathodyn glas"

"Popeth yn iawn, ond does dim llawer o leoedd parcio yn yr UMA"

"Dim problem – roedd hi'n hawdd parcio"

"Mae'n hawdd cyrraedd yr ysbyty"

Ysbyty Brenhinol Gwent (UMA)

Roedd saith person wedi aros hyd at 2 awr i gael eu hasesiad cychwynnol ar ôl cyrraedd yr UMA hon. Roedd y rhan fwyaf o bobl wedi aros llai nag awr. Fodd bynnag, dywedodd un person wrthym ei fod wedi gorfod aros 5 awr.

Roedd yn galonogol darllen bod y rhan fwyaf o bobl wedi aros llai nag awr am eu hymgyngoriad (triniaeth feddygol). Ond dywedodd 10 person wrthym eu bod wedi aros hyd at 3 awr. Dywedodd dau berson wrthym eu bod wedi aros am gyfnodau hir iawn. Dywedodd un ohonynt ei fod wedi aros 6 awr a dywedodd y llall ei fod wedi aros 24 awr.

Sylwadau:

"Fe ges i gymorth gan y swyddogion diogelwch wrth y giât i ddod o hyd i le i barcio – roedden nhw'n ystyriol iawn o'm problemau symudedd"

"Rwy'n defnyddio cerbyd sy'n caniatáu i mi yrru gan eistedd yn fy nghadair olwyn. Roedd y maes parcio yn uchel iawn ond roedd y cynorthwydd yn barod iawn i helpu"

"Rhiw serth i fyny at Ysbyty Gwynllyw"

"Doedd dim lleoedd parcio"

Ysbyty Ystrad Fawr (UMA)

Roedd yn gadarnhaol darllen bod 92 o bobl wedi aros llai nag awr am eu hasesiad cychwynnol yn UMA YYF. Roedd saith person wedi aros dros awr a hyd at 4 awr.

O'r 124 o bobl a aeth i'r UMA hon, roedd saith ohonynt wedi aros hyd at 2 awr i gael ymgynghoriad ar ôl eu hasesiad cychwynnol.

Roedd 47 o bobl wedi aros rhwng 1 a 2 awr i gael eu rhyddhau o'r ysbyty, roedd 26 o bobl wedi aros dros 2 awr a hyd at 6 awr. Dywedodd dau berson wrthym eu bod wedi gorfod aros rhwng 6 awr a hyd at 12 awr cyn cael eu rhyddhau o'r ysbyty.

Sylwadau:

"Taith leol ac yn hawdd cyrraedd yr uned"

"Er bod YYF yn bellach nag YBG, mae'r cyswllt ffordd o Gwmbrân yn ardderchog, does dim problemau parcio ac mae'r cyfnodau aros yn llai."

"Mae angen maes parcio mwy"

"Roedd hi braidd yn anodd parcio – does dim llawer o leoedd parcio sy'n addas i blant"

"Dim lleoedd parcio"

"Arwyddion da iawn ar y ffordd"

"Roedd hi'n hunllef dod o hyd i le parcio"

"Anodd dod o hyd i'r UMA ar ôl parcio"

"Mae'n anodd parcio, does dim lleoedd parcio"

"Os nad ydych chi'n gyrru, gall fod yn anodd cyrraedd yr ysbyty"

"Bu'n rhaid i mi aros 10 munud am le parcio"

"Does dim digon o leoedd parcio. Bu'n rhaid i ni aros 30 munud i barcio cyn gallu mynd i mewn i'r ysbyty"

"Mae'n anodd parcio ar hyn o bryd oherwydd y gwaith adeiladu, ond fe lwyddais i barcio'n ddidrafferth y tro hwn"

Ysbyty Aneurin Bevan (UMA)

Roedd yn galonogol darllen bod bron pawb a aeth i YAB wedi aros hyd at awr i gael eu hasesiad cychwynnol. Dim ond un person y bu'n rhaid iddo aros 2 awr.

Ar ôl cael eu hasesiad cychwynnol, dim ond dau berson a arhosodd 2 awr am eu hymgyngoriad (triniaeth feddygol). Bu'n rhaid i bawb arall aros llai nag awr.

Pan oedd pobl wedi cael triniaeth feddygol yn yr UMA hon, dywedodd 36 o bobl wrthym eu bod wedi aros hyd at un awr cyn cael eu rhyddhau o'r ysbyty neu gael eu derbyn i ward arall. Roedd chwe pherson wedi aros rhwng dwy awr a phedair awr, ac roedd un person wedi aros chwe awr.

Sylwadau:

"Mae'n hawdd parcio"

"Doedd dim dewis ond defnyddio'r bws"

Cyfforddusrwydd

Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o bobl o'r farn bod y canlynol yn wir am eu cyfnod yn yr adran ym mhob ysbyty:

- Roedd lluniaeth ar gael
- Roedd y toiledau yn addas ar gyfer eu hanghenion
- Roeddent yn gyfforddus

Dywedodd 85% o bobl wrthym eu bod wedi aros ar gadair yn yr adran ond dywedodd 9% o bobl eu bod wedi aros ar wely mewn ciwbicl.

Roedd nifer bach o bobl nad oeddent yn teimlo'r un ffordd. Er enghraifft, nid oedd 18 o bobl a aeth i AAB Ysbyty Athrofaol y Faenor yn teimlo'n gyfforddus yn ystod eu cyfnod yn yr adran ac, ar gyfartaledd ar bob safle, dywedodd 8 person wrthym nad oedd lluniaeth ar gael iddynt.

Sylwadau:

"Gwely cyfforddus iawn. Meddyginiaeth y claf ar ben ei bag yn rhan flaen y bae wrth ymyl y bin pedal" – YAF

"Dim clustog – blanced o gartref. Roedd stumog dost gen i ac fe ges i fy rhoi mewn cadair. Roeddwn i'n anghyfforddus yn cysgu mewn cadair. Ardal brysur, roedd pobl yn siarad drwy'r nos" – YAF

"Bu'n rhaid i mi eistedd yn yr adran damweiniau ac achosion brys am 13 awr. Ni chefais gynnig unrhyw ddiod na bwyd yn ystod y cyfnod hwn – dylai'r staff ofyn i berthnasau roi eu cadeiriau i gleifion" – YAF

"Yn fy marn i, doedd hi ddim yn briodol i mi aros yn yr ystafell aros ar gadair. Doeddwn i ddim yn gyfforddus o gwbl ar gadair – poenus" – YAF

"Roedd yr adran yn brysur iawn. Roedd yr ardal aros yn llawn. Fodd bynnag, roedd hanner y cadeiriau yn cael eu defnyddio gan bobl nad oeddent yn gleifion eu hunain, a oedd wedi dod yn gwmni i gleifion" – YAF

"Mae popeth wedi bod yn dda. Mae'r bwyd yn dda. Roedd y bwyd yn oer gan fod y meddyg yma. Fe ges i gynnig te a choffi." – YAF

"Mae'r adran yn rhy gynnes. Doedd y toiledau ddim yn gweithio" – YNH

"Cyfforddus" – YNH

Cyfathrebu

Pan fydd pobl yn mynd i Uned Mân Anafiadau neu'r Adran Achosion Brys, mae'n bosibl y byddant weithiau'n teimlo'n ofidus neu'n bryderus. Mae'n bwysig bod pobl yn teimlo eu bod yn cael gwybod am unrhyw gynllun triniaeth ac amseroedd aros yn yr adran, eu bod yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt a bod eu preifatrwydd a'u hurddas yn cael eu parchu. Felly, gwnaethom ofyn i bobl ddweud wrthym am y profiadau hyn wrth fynd i'r lleoliadau hyn.

Wrth adolygu'r ymatebion, ar gyfartaledd roedd 96% o bobl yn teimlo bod y canlynol yn wir:

- Roedd y staff yn sylwgar, yn ofalgar ac yn gwrtais tuag atynt
- Roeddent wedi cael eu trin ag urddas ac wedi cael digon o breifatrwydd yn ystod eu cyfnod yn yr adran
- Roeddent yn teimlo bod y staff wedi gwrando arnynt

- Roedd y meddygon/nyrsys yn trafod eu triniaeth mewn ffordd a oedd yn cadw cyfrinachedd.

Er bod yr adborth mor gadarnhaol, dywedodd 20% o bobl wrthym nad oeddent wedi cael eu hysbysu'n rheolaidd am faint o amser y byddai'n rhaid iddynt aros/am eu triniaeth. Dywedodd 244 o bobl wrthym nad oeddent wedi cael gwybod am unrhyw oedi o ran gadael yr adran.

Dywedodd un person a aeth i'r AAB yn YAF wrthym ei fod wedi eistedd mewn cadair yn yr adran, a'i fod *"yn rhannu ciwbicl 1-person â 2 glaf arall, heb unrhyw breifatrwydd"*

Dywedodd saith person wrthym nad oedd modd iddynt gyfathrebu yn eu dewis iaith, ond ni chafwyd unrhyw sylwadau pellach yn hynny o beth.

Mynegodd un person a aeth i'r Uned Mân Anafiadau yn YYF ei rwystredigaeth ynghylch y diffyg cyfathrebu yn yr adran. Roedd y person hwn wedi ffonio'r uned cyn dod ac wedi esbonio'r rheswm dros ddod. Roedd hefyd wedi esbonio'r rheswm i staff y dderbynfa pan gyrhaeddodd yr uned. Fodd bynnag, ar ôl aros dros awr yn yr uned, cafodd y person hwn wybod na ellid ei drin am yr anhwylder penodol hwnnw.

Sylwadau:

"Byddai pecyn â theclynnau yn haws i bobl ag awtistiaeth. Hefyd, trefniadau i gael cymorth gan unigolion sy'n defnyddio iaith arwyddion gan nad oes modd darllen gwefusau drwy fasgiau" – YNH

"Problem fawr â'r system sy'n gofyn i bobl wneud penderfyniadau ble i atgyfeirio cleifion fel rhan o'r broses brysennu" – YNH

"Roeddwn i'n teimlo bod y meddyg yn rhy brysur i wrando ar hanes meddygol fy mhartner ac yn teimlo na chafodd ein pryderon eu hystyried" – YBG

"Diffyg cyfathrebu llwyr mewn perthynas â gofal fy mam. Dim ymateb gan unrhyw staff pan ofynnwyd iddyn nhw" – YBG

"Dydw i ddim wedi cael gwybod am ba hyd y bydda i'n aros yma" – YAF

"Dim llawer o gyfathrebu o gwbl, doedd gen i ddim syniad faint o amser y byddwn i yno – roeddwn i'n poeni y byddwn i'n cael fy ngadael dros nos, roedd fy meddyginiaethau gartref" – YAF

"Maen nhw'n gofyn a ydw i'n iawn wrth fynd heibio – da iawn" – YAF

"Barod iawn i helpu" – YAB

*"Ystyriol iawn, gan addasu eu dull wrth ddelio â fy mam sydd â dementia"
– YAB*

*"Roedd y staff yn garedig, yn ofalgar ac yn gwranddo arna i. Gwnaeth y
staff lwyddo i dawelu meddwl fy mab." – YAB*

*"Does dim preifatrwydd yn y brif fynedfa. Gall unrhyw un sy'n aros i gael
ei frysbennu eich clywed yn esbonio eich anaf ac ati wrth staff y
dderbynfa" – YYF*

*"Gofynnodd staff y dderbynfa i mi esbonio fy anaf. Doeddwn i ddim yn
teimlo bod preifatrwydd ar gael" – YYF*

*"Cawsom ein cyfarch yn y ddwy iaith, a oedd yn dda iawn gan fod fy mab
yn mynd i ysgol Gymraeg" – YYF*



Bodddhad cyffredinol

Gwnaethom ofyn i bobl roi eu barn ar y canlynol gan ddewis o raddfa o "gwael iawn" i "da iawn":

Pob UMA a'r AAB	Da iawn	Da	Iawn	Gwael	Gwael iawn
Eu hymweliad â'r adran	197	96	44	8	8
Hyd yr amser y bu'n rhaid iddynt aros	127	78	81	25	27
Y driniaeth a gawsant	194	81	36	6	6
Pa mor gymwynasgar a chyfeillgar oedd y staff	249	62	26	3	6
Y lefelau cyfforddusrwydd yn yr adran	156	99	56	23	14

Roedd yn galonogol darllen bod y rhan fwyaf o bobl o'r farn bod y profiadau uchod naill ai'n "*dda iawn*" neu'n "*dda*".

Wrth ddadansoddi'r ymatebion ymhellach, roedd yn ymddangos bod y rhan fwyaf o bobl a oedd o'r farn bod y cyfnod y bu'n rhaid iddynt aros yn "*wael*" neu'n "*wael iawn*" wedi mynd i AAB Ysbyty Athrofaol y Faenor. Roedd yr un peth yn wir o ran y lefelau cyfforddusrwydd yn yr adran.

Nodwyd yn ystod cyfnod y Nadolig yn YYF (dydd Nadolig, dydd Gŵyl San Steffan) fod y bwyty ar gau i ymwelwyr ac i staff.



Sylwadau

Gwnaethom ofyn "A oes unrhyw beth sydd wedi bod yn dda iawn neu unrhyw beth a allai wella eich profiad yn yr adran?"

Ysbyty Athrofaol y Faenor (AAB):

"Ar hyn o bryd, dydw i ddim yn credu bod unrhyw beth a allai wella'r profiad gan fod yr ysbyty yn gweithredu hyd eithaf ei gapasiti'n gyson. Does dim hyblygrwydd"

"Gellid gwella'r amseroedd aros"

"Mae'n rhy brysur yn yr adran damweiniau ac achosion brys, roedd nifer y bobl yn ormod i mi"

"Dim awgrymiadau. Roedd fy mhrofiad yn dda iawn"

"Mae'r staff yn dda iawn"

"Bu'n rhaid i mi aros 3 awr am ocsigen, dim esboniad"

"Roedd y staff yn ardderchog"

"Mae'r doctor rydym wedi'i weld yn rhoi digon o wybodaeth ac yn ofalgar"

"Mae angen mwy o breifatrwydd o ran lleoliad y toiledau"

"Diffyg clustogau"

"Daeth fy ngŵr â'm mam i'r adran hon ryw 10 mis yn ôl a doedd y profiad ddim yn dda o gwbl. Mae'r adran wedi gwella'n sylweddol ers hynny, yn ôl pob golwg. Roedd y staff i gyd yn wych y tro hwn. Roedd fy arhosiad yn gyfforddus iawn."

"Mae'r cyhoeddiadau ar yr uwchseinydd yn y dderbynfa hefyd yn cael eu hailadrodd yn yr ardaloedd trin tawel – fe ges i fy nghadw ar ddihun"

"Mae'r nyrsys a'r meddygon wedi bod yn ardderchog – does dim byd negyddol gen i i'w ddweud amdanynt"

"Mae'r staff wedi bod yn ardderchog, mae'r amseroedd aros yn wirioneddol ofnadwy"

"Mae'n bryder cael gwybod nad oes cyfleuster ar gyfer cynnal sganiau uwchsain brys"

"O dan yr amgylchiadau cyfredol yn y GIG, roedd y gofal yn dda iawn. Mae'r meddygon a'r nyrsys yn ardderchog wrth ofalu am fy mam sy'n 99 oed"

"Amseroedd aros hir iawn. Does dim cyfleuster ar gyfer adfer unigolion ar ôl trawiadau"

"Gellid gwella'r amseroedd aros a gallai'r cyfathrebu ynghylch amseroedd aros/canlyniadau profion fod yn well"

"Rhowch godiad cyflog iddyn nhw [y staff], maen nhw'n wych drwy'r amser"

"Mae pob aelod o'r staff wedi bod yn ardderchog, mae hi mor brysur yno. Mae angen estyniad i'r adran. Roedd pawb ar ben ei gilydd, roedd cleifion yn gorwedd ar y llawr, roedd yn rhaid gwthio heibio i gadeiriau olwyn er mwyn cyrraedd yr ardal brysbennu. Efallai y dylid symud desg y dderbynfa nôl ychydig a darparu seddau ychwanegol – nid y seddau metel fel seddau bws fel sydd yno ar hyn o bryd"



Ysbyty Nevill Hall (UMA):

"Mae'n anodd i bobl â nam ar eu golwg symud o amgylch yr ysbyty"

"Maen nhw wedi gwneud popeth roeddwn yn disgwyl iddyn nhw ei wneud"

"Popeth fel y dylai fod – mae'r amseroedd aros yn well na'r disgwyl"

"Staff cyfeillgar iawn a chyfathrebu clir"

"Roedd y nyrs yn hollol hyfryd ac yn barod iawn i helpu"

"Dwi'n deall bod y staff o dan bwysau yn ystod y cyfnod anodd hwn, ond mae'r gwasanaeth yma yn ofnadwy. Dwi'n gweithio mewn ysbyty, ac mae'r ffordd mae'r staff yn gwastraffu amser yn annerbyniol. Dylech haneru eich amseroedd aros gan sicrhau llif gwaith cyson."

"Gwnaeth y staff i fy mab deimlo'n gartrefol, gan nad yw'n hoffi ysbytai"

Ysbyty Brenhinol Gwent (UMA):

"Staff ardderchog ar y dderbynfa"

"Bwyd poeth"

"Cyfathrebu, roedd hi'n anodd cael gwybod pa nyrs neu feddyg oedd yn gyfrifol am y gofal"

"Drwy gael rhagor o staff"

Ysbyty Ystrad Fawr (UMA):

"Staff ardderchog"

"Mae'r staff yn gyfeillgar iawn"

"Na – popeth yn dda"

"Byddai cerddoriaeth yn yr ystafelloedd aros yn help mawr"

"Mae angen buddsoddi mwy o arian. Dim bai ar yr adran – rydym am achub ein GIG"

"Cyfathrebu da iawn gan staff y dderbynfa"

"Mae'n anodd parcio"

"Roedd y staff yn barod iawn i helpu ac yn gwrtais gan fy nhrin i ac eraill â pharch mawr"

"Roedd yr arwyddion Saesneg ar gyfer yr Uned Mân Anafiadau yn cyfeirio at 'MAU' a'r 'Uned Asesu Leol'. Gwnaeth hynny fy nrysu a bu'n rhaid i mi ofyn"

"Roedd claf arall wedi bod yno am gyfnod hir – roedd ei chyflwr yn gwaethygu'n raddol wrth iddi aros – roedd yn anodd ei gweld yn dioddef"

"Pe byddai staff y dderbynfa wedi esbonio na allai'r uned helpu pan ddywedais wrthyn nhw beth oedd y broblem, byddai fy mhrofiad wedi bod yn un gwell!"

Ysbyty Aneurin Bevan (UMA):

"Gwnaed popeth i'm helpu"

"Mae'r uned yn fendith, mae'r staff yn ardderchog, mae'n hawdd ei chyrraedd ac i barcio"

"Dim – mae'r staff yn arbennig"

"Yn ystod yr ymweliad, roedd angen diod arna i. Ond roedd y caffi a'r siop ar gau ar y pryd, sef 11:40. Doedd dim modd cyrraedd y peiriant dŵr yn y brif ardal gan fod bin ailgylchu wedi'i osod o'i flaen, a doedd dim cwpanau beth bynnag"

"Roedd y staff yn dda iawn ac yn rhoi tawelwch meddwl"

"Trueni nad dyma ein prif ysbyty yn lle gorfod mynd i YNH neu'r Faenor"

"Rhyw fath o uwchseinydd efallai gan nad oes modd clywed y nyrsys o'r uned mân anafiadau pan fyddan nhw'n galw eich enw, yn enwedig pan fyddan nhw'n gwisgo masgiau – doeddwn i ddim yn gallu clywed dim byd"

"Byddai teledu yn yr ardal aros yn beth da – neu gerddoriaeth"

"Mwy o bethau i helpu i ddifyrru plant bach gan nad oes unrhyw beth ar hyn o bryd"

Gwnaethom ofyn *"Os ydych chi eisoes wedi ymweld â'r adran hon yn ystod y 12 mis diwethaf, a ydych chi wedi sylwi ar unrhyw welliant ers eich ymweliad diwethaf neu a oes unrhyw beth y mae angen ei wella o hyd?"*

Roedd rhai o'r bobl a oedd wedi ymweld ag YAB yn ystod y 12 mis diwethaf o'r farn bod yr amser y bu'n rhaid iddynt aros wedi gwella.

Dywedodd un person a aeth i YNG wrthym *"Mae'r ysbyty hwn wedi bod yn un da erioed. Mae'r amseroedd aros yn amrywio, ond mae hynny i'w ddisgwyl"*.

Dywedodd pobl a oedd wedi mynd i'r Faenor yn flaenorol nad oedd unrhyw wahaniaeth rhwng eu hymweliadau yn eu barn nhw. Dywedodd un person wrthym y byddai *"yn poeni pe byddai'n rhaid i mi fynd yno eto"*. Roedd eraill o'r farn bod amseroedd aros hir o hyd. Fodd bynnag, dywedodd un person wrthym fod ei gŵr wedi ymweld â'r adran 10 mis yn ôl, a bod ei ymweliad *"ddim yn dda"*. Ers hynny, roedd wedi mynd i'r AAB

eto a dywedodd wrthym "*mae'r adran wedi gwella'n sylweddol yn ôl pob golwg – roedd y staff i gyd yn wych y tro hwn*"

Dywedodd person a aeth i UMA Ysbyty Brenhinol Gwent wrthym ei fod wedi cael mwy o brofiad o orfod aros am gyfnod hir nag o orfod aros am gyfnod byr yn yr adran hon yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, dywedodd un person wrthym fod yr uned wedi gwella a'i bod "*yn llawer mwy effeithlon*"

Arsylwadau

Fel y nodwyd yn flaenorol, drwy gydol y prosiect 6 wythnos hwn, roedd aelodau gwirfoddol o'n CIC yn bresennol yn yr UMAau a'r AAB ar fore dydd Llun ac ar nos Iau.

Pan oedd yr aelodau yn yr adrannau ac yn cwblhau arolygon â'r bobl a oedd yn barod i ymgysylltu â ni, weithiau gwnaed arsylwadau ar y pryd ac anfonwyd yr arsylwadau hynny at swyddfeydd y CIC er mwyn i ni eu nodi, ac mewn rhai achosion er mwyn gallu hysbysu'r Bwrdd Iechyd amdanynt.

Nododd un o aelodau gwirfoddol y CIC nad oedd yn gallu dod o hyd i'r mapiau safle ar gyfer yr ysbytai yr oedd yn bwriadu ymweld â nhw. Codwyd y mater hwn â Thîm Cyfathrebu'r Bwrdd Iechyd ac mewn ymateb, lanlwythodd fapiau ar gyfer pob safle i wefan Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Ysbyty Athrofaol y Faenor (AAB)

Yn ystod ymweliadau â'r AAB, cododd aelodau faterion fwy nag unwaith yn ymwneud â phreifatrwydd ac urddas mewn perthynas â phobl a oedd yn gwisgo gynau ysbytai. Nodwyd nad oedd y gynau wedi cael eu clymu'n briodol, gan ddatgelu rhannau o gorff y bobl a oedd yn eu gwisgo, ac nad oedd pobl yn gwisgo gynau ysbyty o'r maint cywir. Codwyd y materion hyn â'r staff perthnasol yn y Bwrdd Iechyd, a chawsom sicrwydd y byddent yn ymchwilio i'r mater er mwyn sicrhau na fydd yn digwydd eto.

Nododd aelodau ar nifer o'r ymweliadau fod gormod o bobl yn yr ardal aros, ac mewn rhai achosion, bod yn rhaid i bobl sefyll neu eistedd ar y llawr. Gwnaed sylw hefyd bod yr arogl yn yr ystafell aros yn "*annymunol*".

Ysbyty Nevill Hall (UMA)

Yn ystod ymweliad, dywedodd staff yn yr adran hon wrth yr aelodau am eu pryderon: roedd pobl yn aml yn mynd i'r UMA pan oedd angen iddynt gael eu trin mewn cyfleuster arall. Wedyn, roedd yn rhaid atgyfeirio'r bobl hyn at ysbyty arall i gael gofal priodol. Roedd enghreifftiau o bobl a oedd yn mynd i'r uned ond a ddylai fod wedi mynd i gyfleuster gwahanol neu fod wedi cael eu cyfeirio at gyfleuster arall:

- Oedolion difrifol wael, gan gynnwys unigolion â phoenau yn y frest
- Plant a oedd yn anhwylydus
- Achosion mamolaeth.

Nodwyd bod y toiledau yn yr adran yn hygyrch, er nad oedd y drysau yn awtomatig, felly gallai fod yn anodd i bobl nad oeddent ond yn gallu defnyddio un llaw, neu bobl a oedd yn defnyddio baglau, eu defnyddio.

Yn ystod un ymweliad, nododd yr aelodau nad oedd unrhyw doiledau penodedig i ddynion. Mae un cyfleuster ag arwydd i fenywod arno ac un toiled i bobl anabl/newid babanod. Gwelodd yr aelodau enghreifftiau o bobl yn yr uned yn drysu o ran pa doiled i'w ddefnyddio.

Ysbyty Brenhinol Gwent (UMA)

Tynnodd staff yn yr UMA hon sylw'r aelodau at y ffaith bod ceir yn parcio yn y manau i'r ambiwlansys, a all achosi problemau gan y dylent gael eu cadw'n glir bob amser. Mae'r broblem hon fel petai'n waeth gyda'r nos.

Ysbyty Ystrad Fawr (UMA)

Nododd yr aelodau nad oedd yr un o'r ddau lifft ym mhrif fynedfa'r ysbyty yn gweithio yn ystod eu hymweliad â'r uned ddydd Llun 13 Chwefror. Dywedwyd wrth yr aelodau nad oedd un o'r lifftiau wedi bod yn gweithio ers tua 9 mis. Pan ymwelodd yr aelodau eto'n ddiweddarach yr wythnos honno, roedd un o'r lifftiau wedi cael ei drwsio. Fodd bynnag, nodwyd bod y lifft arall nad oedd yn gweithio o hyd wedi bod yn aros i gydran newydd gyrraedd er mwyn gallu ei drwsio ers amser hir. Roedd hyn yn anghyfleus i'r staff ac i gleifion ac ymwelwyr yr oedd angen iddynt ddefnyddio'r lifftiau yn rheolaidd.

Pan gafodd materion eu codi gyda staff yn y Bwrdd Iechyd, cafwyd ymateb cyflym iddynt ac mewn rhai achosion, cymerwyd camau gweithredu cyflym.

Casgliad

Mae'r CIC yn parhau i gydnabod yr heriau a'r pwysau system gyfan y mae gwasanaethau iechyd yn eu hwynebu. Mae'n amlwg o'r adborth a gawsom yn ystod y prosiect hwn bod natur gyfeillgar y staff, eu parodrwydd i helpu a'u gwaith caled yn gwneud cryn argraff ar yr unigolion hynny sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG. Dywedodd un person wrthym "*Mae staff y GIG yn angyllion ac nid ydynt yn cael eu gwerthfawrogi ddigon*". Hefyd, pan ymwelodd yr aelodau gwirfoddol o'n CIC â'r holl adrannau, nodwyd ganddynt pa mor gyfeillgar oedd y staff a pha mor barod i helpu.

O gymharu ag adroddiad y llynedd, mae'n amlwg bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud newidiadau sydd wedi gwella boddhad cleifion yn AAB Ysbyty Athrofaol y Faenor. Er enghraifft, mae gan Ysbyty Athrofaol y Faenor Uned Gofal Brys ar yr Un Diwrnod (SDEC) erbyn hyn er mwyn i feddygon teulu allu atgyfeirio pobl yn uniongyrchol i gael triniaethau y diwrnod hwnnw. Mae hyn yn lleihau nifer y bobl y mae'n rhaid iddynt fynd i'r AAB neu aros yn yr Uned Asesu Llawfeddygol ac yn lleihau'r pwysau ar yr adran.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau â'i ymgyrch gyhoeddus i annog pobl i ddefnyddio'r gwasanaeth iechyd cywir pan fydd angen sylw meddygol arnynt. Serch hynny, wrth edrych ar yr ymatebion ar gyfer y prosiect hwn, nid yw llawer o bobl yn siŵr o hyd neu nid ydynt yn gwybod bod modd iddynt gysylltu â GIG 111 cyn mynd i ysbyty.

Yn debyg i ganfyddiadau'r llynedd, mae pobl yn gorfod aros am gyfnodau hir o hyd ac mae pobl yn teimlo'n anghyfforddus o hyd wrth aros ar gadeiriau yn yr AAB.

Mae'r diffyg lle yn adran aros yr Adran Achosion Brys yn achosi problem o hyd. Fel y crybwyllwyd yn flaenorol, gwelodd aelodau'r CIC ar adegau fod pobl yn sefyll yn yr ardal aros, a hyd yn oed yn eistedd ar y llawr.

Nododd rhai o'r bobl a aeth i'r UMA fod y cyfleusterau parcio yn Ysbyty Ystrad Fawr yn achosi problem.

Mae'r canfyddiadau hyn yn tynnu sylw at y meysydd y mae angen eu gwella.

Argymhellion

- 1)** Byddai'r CIC yn falch pe gellid rhannu'r adborth cadarnhaol yn yr adroddiad hwn mewn perthynas â'r ganmoliaeth barhaus i staff yn yr ysbytai am eu natur gyfeillgar, eu parodrwydd i helpu a'u gwaith caled â'r staff. Mae hyn hefyd yn cynnwys staff y gwasanaeth ambiwlans.
- 2)** Mae'r CIC yn cydnabod yr ymgyrch gyhoeddus i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r hyn y dylent ei wneud os bydd angen sylw meddygol arnynt, ac yn gwerthfawrogi'r ymgyrch honno. Fodd bynnag, mae'r adborth a gafwyd o'r arolwg hwn yn dangos nad yw llawer o bobl yn siŵr o hyd neu nad ydynt yn gwybod bod modd iddynt gysylltu â GIG 111 neu weithiwr iechyd proffesiynol arall cyn mynd i ysbyty. Hoffai'r CIC i'r Bwrdd Iechyd ystyried aiddosbarthu'r wybodaeth i drigolion Gwent neu ystyried ymgyrchoedd proffil uwch yn y cyfryngau er mwyn atgyfnerthu'r neges.
- 3)** Gofynnir i'r Bwrdd Iechyd: ystyried yr adborth a gafwyd mewn perthynas â'r problemau parcio yr oedd pobl yn eu cael wrth fynd i Ysbyty Ystrad Fawr.
- 4)** Sicrhau lle y bo'n briodol y caiff pobl wybod am ba hyd y gallant ddisgwyl aros yn yr adran ac y cânt eu hysbysu o'r wybodaeth ddiweddaraf am amseroedd aros drwy gydol eu cyfnod yn yr adran.
- 5)** Sicrhau y gall pobl gyfathrebu yn eu dewis iaith.
- 6)** Byddai'r CIC yn falch pe gellid ystyried yr adborth mewn perthynas â chyfforddusrwydd pobl tra'n aros yn yr adrannau.
- 7)** Byddai'r CIC yn falch pe gallai'r Bwrdd Iechyd ystyried adborth pobl mewn perthynas â'r diffyg lle yn ardal aros yr Adran Achosion Brys yn YAF.

- 8)** Gofynnir i bob aelod o staff sicrhau y caiff preifatrwydd ac urddas pobl bob amser eu parchu. Gofynnir i'r Bwrdd Iechyd ystyried adborth pobl yn enwedig mewn perthynas â'r diffyg preifatrwydd yn Ysbyty Ystrad Fawr wrth gofrestru wrth ddesg derbynfa'r UMA a sicrhau gynau ysbyty o'r maint priodol sy'n gorchuddio'n briodol.
- 9)** Gofynnir i'r Bwrdd Iechyd ystyried yr adborth mewn perthynas â'r lifftiau sydd wedi torri yn YYF.
- 10)** Sicrhau nad yw pobl yn parcio'n amhriodol yn YBG er mwyn gwneud yn siŵr y gall ambiwlansys bob amser barcio yn y manau i'r ambiwlansys.

Diolchiadau

Hoffai'r CIC ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i rannu eu barn â ni, a gobeithio y bydd yr adborth yn dylanwadu ar wasanaethau gofal iechyd i gydnabod a gwerthfawrogi'r hyn y maent yn ei wneud yn dda a'u galluogi i gymryd camau cyn gynted â phosibl i wella pethau lle bo angen.

Hoffem ddiolch hefyd i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan am barhau i gefnogi'r prosiect hwn dros y blynyddoedd, ac am werthfawrogi'r adborth a gaiff ei gasglu gan gleifion ac eraill.

Cytunodd y Bwrdd Iechyd yn garedig i arddangos ein pecynnau arolygu, ein cardiau busnes a'n posteri yn yr adrannau, a lwyddodd yn ddi-au i gynyddu ein cyfradd ymateb. Pan anfonwyd arsylwadau at staff yn y Bwrdd Iechyd, cafwyd ymateb bob tro yn ymdrin â'r materion a godwyd ac yn rhoi gwybodaeth am y camau gweithredu a gymerwyd i sicrhau na fyddai'r materion hynny yn codi eto.

Fel arfer, roedd ein haelodau gwirfoddol o'n CIC yn rhan hanfodol o'r prosiect hwn, drwy ymweld â'r Adran Achosion Brys a phob Uned Mân Anafiadau dros y cyfnod o chwe wythnos. Heb ein haelodau, ni fyddem wedi gallu cael adborth wyneb yn wyneb gan bobl nac unrhyw rai o'r arsylwadau a wnaed ganddynt yn ystod eu cyfnod yn yr adrannau. Felly diolch iddynt am roi o'u hamser, am eu hymdrech a'u hymroddiad.

Ynglŷn â Chynghorau Iechyd Cymuned (CICau)

CICau yw corff gwarchod annibynnol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae CICau yn annog pobl i leisio eu barn am y broses o gynllunio a darparu gwasanaethau'r GIG, ac yn eu cefnogi i wneud hynny.

Mae CICau yn gweithio gyda'r GIG, cyrff arolygu a chyrff rheoleiddio. Mae CICau yn darparu dolen gyswllt bwysig rhwng y rhai sy'n cynllunio ac yn darparu gwasanaethau'r GIG, y rhai sy'n eu harchwilio a'u rheoleiddio, a'r rhai sy'n eu defnyddio.

Mae CICau yn cael adborth gan y cyhoedd mewn sawl ffordd. Rydym yn ymweld â gwasanaethau'r GIG yn rheolaidd er mwyn clywed gan bobl wrth iddynt gael gofal a thriniaeth. Mae CICau hefyd yn clywed gan bobl mewn digwyddiadau cymunedol lleol, a thrwy gynrychiolwyr a grwpiau cymunedol.

Ers pandemig y coronafeirws, mae CICau wedi canolbwyntio ar ymgysylltu â phobl mewn rhagor o ffyrdd.

Mae hyn yn cynnwys arolygon, apiau, fideogynadledau a'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn clywed gan bobl yn uniongyrchol am eu barn am wasanaethau'r GIG a'u profiadau o'u defnyddio, yn ogystal â thrwy grwpiau cymunedol.

Mae saith CIC yng Nghymru. Mae pob un ohonynt yn cynrychioli llais "y cleifion a'r cyhoedd" mewn rhan wahanol o Gymru.



Manylion cyswllt



Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan
Tŷ Rhaglan
William Brown Close
Parc Busnes Llantarnam
Cwmbrân
NP44 3AB



01633 838516



Enquiries.AneurinBevanCHC@waleschc.org.uk



www.aneurinbevancic.gig.cymru



@Bevanchc



CIC Aneurin Bevan CHC

Canlyniadau'r arolwg o Gydraddoldeb ac Amrywiaeth

Dewis Iaith									
Saesneg			Arall			Heb ateb			
187			3						
Rhywedd									
Menyw/Merch		Dyn/Bachgen		Anneuaidd		Byddai'n well gen i beidio â dweud		Arall	Heb ateb
186		119				2			
A ydych yn ystyried eich bod yn berson traws?									
Ydw			Nac ydw			Byddai'n well gen i beidio â dweud		Heb ateb	
3			280			2			
Cyfeiriadedd Rhywiol									
Anrhywiol	Deurywiol	Hoyw	Lesbiaidd	Heterorywiol/Syth		Panrywiol	Byddai'n well gen i beidio â dweud	Arall	Heb ateb
10	1	2	5	250		2	11		
Mis a Blwyddyn geni									
Ion 1924- 2004	Chwe 1931- 2009	Maw 1939- 1995	Ebr 1927- 2010	Mai 1941- 2010	Meh 1933- 1995	Gorff 1954	Awst 1937		

						- 2008	- 2010
19	19	10	19	15	18	24	20
Medi 1944- 2015	Hyd 1936- 1997	Tach 1936- 2011	Rhag 1941- 2009		Heb ateb		
14	24	17	21				

Ethnigrwydd

Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig:

Bangla deshai dd	Tsein eaidd	Indiaid d	Pacistanaidd	Arall
	1		1	1

Du neu Ddu Prydeinig:

Affricanaidd	Caribïaidd	Arall

Gwyn:

Cymreig/Seisni g/Albanaidd/G wyddelig Gogledd Iwerddon/Pryd einig	Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig	Gwyddelig	Arall
286	2		1

Grŵp Ethnig arall:

Arabaid	Byddai'n well gen i beidio â dweud	Arall
1	0	0

Crefydd neu gred

Bwdhaeth	Cristnogaeth	Hindŵaeth	Islam	Iddewiaeth
----------	--------------	-----------	-------	------------

A ydych yn ystyried bod gennych anabledd?

Siciaeth Ydw	Anffyddiaeth Nac ydw	Dim Crefydd	Byddai'n well gen i beidio â dweud	Byddai'n well gen i beidio â dweud	Crefydd neu gred arall
	212	136		37 6	5

A ydych yn gofalu am aelod o'r teulu, ffrind neu gymydog, neu'n rhoi unrhyw gymorth iddo, o ganlyniad i anabledd corfforol hirdymor, anhawster dysgu, salwch meddwl neu broblemau sy'n gysylltiedig â henaint?

Ydw	Nac ydw	Byddai'n well gen i beidio â dweud	Heb ateb
74	211	8	

A ydych yn feichiog ar hyn o bryd neu a ydych wedi bod yn feichiog yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?

Ydw	Nac ydw	Heb ateb	Byddai'n well gen i beidio â dweud
5	282		2

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Cwblhewch y tabl canlynol er mwyn nodi a fydd y polisi/gweithgaredd yn cael effaith andwyol, gadarnhaol neu wahaniaethol ar y grwpiau canlynol, neu drwy nodi na fydd unrhyw effaith o gwbl

Effaith	Dim	Negyddo	Cadarnhaol	Sylwadau
Nodweddion Gwarchoddedig				
Oedran	x			
Anabledd	x			Mae holl arolygon y CIC ar gael mewn fformat gwahanol ar gais.
Rhyw	X			
Hil	X			
Crefydd/Credoau	X			
Cyfeiriadedd rhywiol	X			
Ailbennu rhywedd	X			
Priodas a phartneriaeth sifil	X			
Beichiogrwydd a mamolaeth	x			

Nodweddion eraill i'w hystyried

Y Gymraeg			x	Adroddiadau ac Arolygon wedi'u cyhoeddi ar ffurf ddwyieithog
Ieithoedd eraill		x		Gellir cyhoeddi Adroddiadau ac Arolygon yn yr iaith ofynnol ar gais
Hawliau dynol	x			
Lefel tlodi	x			
Unigolion â dibynyddion	x			
Poblogaeth wledig	x			
Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr	x			
Unigolion sy'n ei chael hi'n anodd defnyddio technoleg ddigidol	x			

Asesiad Risg

A oes unrhyw risgiau'n codi wrth roi'r polisi hwn ar waith?

Amherthnasol

Pa fesurau sydd ar waith i reoli neu ddileu'r risgiau hyn?

Amherthnasol

Y Gymraeg

Mae'r ddogfen hon/polisi hwn wedi'i hasesu/asesu yn unol â'n gofynion o ran y Gymraeg ar gyfer safonau:

- i) 37, 38
- ii) 69, 70, 71

Wrth benderfynu ar yr effaith, gwnaethom ofyn am gyngor/adolygu tystiolaeth/ystyried y canlynol:

Mae pob dogfen gyhoeddus gan y CIC ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae'r CIC yn cynnal Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob dogfen gyhoeddus ac yn eu nodi fel eitemau cadarnhaol i'w cyfieithu i'r Gymraeg.

Canlyniad

Effaith gadarnhaol –

Safonau 37, 38 – Caiff pob dogfen gyhoeddus ei llunio a'i chyhoeddi'n ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Safonau 69-71 – Rydym yn cynnal Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob dogfen gyhoeddus ac yn eu nodi fel eitemau cadarnhaol i'w cyfieithu i'r Gymraeg

Effaith Negyddol – Dim

Fformatau hygyrch

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg.

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni.

Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan neu ofyn am gopi drwy gysylltu â'n swyddfa.